OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 517 (Cy. 124)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn sefydlu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru ("y Cwricwlwm i Gymru").

Daw'r Cwricwlwm i Gymru yn fandadol fel a ganlyn—

(a) ar 1 Medi 2022 ar gyfer—

(i) plant sy'n cael addysg feithrin a gyllidir,

(ii) disgyblion yn eu blwyddyn derbyn,

(iii) plant a disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6,

(b) ar 1 Medi 2022 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 7 yn yr ysgolion hynny a'r lleoliadau eraill hynny pan fo cwricwlwm wedi ei fabwysiadu neu wedi ei ddarparu fel arall yn unol â Deddf 2021,

(c) ar 1 Medi 2023 ar gyfer plant a disgyblion ym mlynyddoedd 7 ac 8,

(d) ar 1 Medi 2024 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 9,

(e) ar 1 Medi 2025 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 10, ac

(f) ar 1 Medi 2026 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 11.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 517 (W. 124)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Revocation of Assessment Arrangements in the National Curriculum and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2022

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 ("the 2021 Act") establishes a new legal framework for a curriculum and makes provision about assessment for pupils and children in Wales ("the CfW").

The CfW will become mandatory as follows—

(a) on 1 September 2022 for—

(i) children receiving funded nursery education,

(ii) pupils in their reception year,

(iii) children and pupils in years 1 to 6,

(b) on 1 September 2022 for children and pupils in year 7 in those schools and other settings where there is a curriculum adopted or otherwise provided in accordance with the 2021 Act,

(c) on 1 September 2023 for children and pupils in years 7 and 8,

(d) on 1 September 2024 for children and pupils in year 9,

(e) on 1 September 2025 for children and pupils in year 10, and

(f) on 1 September 2026 for children and pupils in year 11.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth yn barod am y cam cyntaf o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i blant a disgyblion yng Nghymru ar 1 Medi 2022 er mwyn diwygio a dirymu nifer o Orchmynion a wnaed o dan adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Mae'r Gorchmynion hynny yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r trefniadau asesu ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol a nodir yn Rhan 7 o Ddeddf 2002.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004 ("Gorchymyn 2004") ar 30 Mai 2022. Bydd hyn yn golygu na fydd asesu o dan Orchymyn 2004 yn digwydd yn y flwyddyn ysgol 2021 i 2022. Mae Gorchymyn 2004 yn nodi'r trefniadau asesu ar gyfer blwyddyn olaf yr ail gyfnod allweddol. Mae hynny'n effeithio ar flwyddyn 6. Nid yw'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion yn y flwyddyn honno tan y flwyddyn ysgol 2022 i 2023.

Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 ("Gorchymyn 2005") yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu disgyblion ym mlwyddyn olaf y trydydd cyfnod allweddol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae hynny'n cyfateb i flwyddyn ysgol 9. Bydd y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion sydd ym mlwyddyn ysgol 9 yn y flwyddyn ysgol 2024 i 2025. Mae rheoliad 4(1) yn datgymhwyso Gorchymyn 2005 ar gyfer disgyblion mewn ysgolion arbennig o'r flwyddyn ysgol 2021 i 2022. Mae rheoliad 4(2) yn dirymu Gorchymyn 2005 ar gyfer pob ysgol arall o 1 Medi 2024.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013"). Mae Gorchymyn 2013 yn gymwys i'r disgyblion hynny ym mlynyddoedd 2 i 9. Bydd y profion sy'n ofynnol gan Orchymyn 2013 yn parhau i gael eu gweinyddu gan ysgolion wrth i'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael ei gyflwyno i'r blynyddoedd hynny. Yr enw a ddefnyddir yn eang gan ymarferwyr ar gyfer y profion hyn yw "asesiadau personol". Mae'r darpariaethau trosiannol yn diwygio Gorchymyn 2013 fel y bydd yn parhau i weithio gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Caiff Gorchymyn 2013 ei ddirymu ar 1 Medi 2024. O 1 Medi 2024 bydd pob disgybl a asesir yn unol â Gorchymyn 2013 yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru ac ni fydd angen Gorchymyn 2013 mwyach. Bwriedir gwneud Rheoliadau newydd mewn perthynas â phrofion darllen a rhifedd a fydd yn gymwys o 2024 ymlaen.

Part 2 of these Regulations makes provision in readiness for the first phase of the roll out of the CfW to children and pupils in Wales on 1 September 2022 to amend and revoke a number of Orders made under section 108 of the Education Act 2002 ("the 2002 Act"). Those Orders make provision in relation to the assessment arrangements for the existing National Curriculum set out in Part 7 of the 2002 Act.

Regulation 3 of these Regulations revokes the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004 ("the 2004 Order") on 30 May 2022. This will mean that assessment under the 2004 Order will not take place in the school year 2021 to 2022. The 2004 Order sets out the assessment arrangements for the final year of the second key stage. That affects year 6. The CfW is not rolled out to pupils in that year until the school year 2022 to 2023.

The National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005 ("the 2005 Order") makes provision for the assessment of pupils in the final year of the third key stage in maintained schools in Wales. That correlates to school year 9. The CfW will be rolled out to pupils in school year 9 in the school year 2024 to 2025. Regulation 4(1) disapplies the 2005 Order for pupils in special schools from the school year 2021 to 2022. Regulation 4(2) revokes the 2005 Order for all other schools from 1 September 2024.

Regulation 5 makes transitional provision in respect of the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013 ("the 2013 Order"). The 2013 Order applies to those pupils in years 2 to 9. The tests required by the 2013 Order will continue to be administered by schools during the roll out of the new CfW to those years. The tests are widely known by practitioners as the "personalised assessments". The transitional provisions amend the 2013 Order so that it will continue to work with the new CfW. The 2013 Order is revoked on 1 September 2024. From 1 September 2024 all pupils who are assessed pursuant to the 2013 Order will be following the CfW and the 2013 Order will no longer be needed. It is intended to make new Regulations in relation to reading and numeracy tests that will apply from 2024 onwards.

Mae rheoliad 6 yn datgymhwyso Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014 ("Gorchymyn 2014") i gyd-daro â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Caiff Gorchymyn 2014 ei ddirymu ar 1 Medi 2024. O 1 Medi 2024 bydd pob disgybl a asesir yn unol â Gorchymyn 2014 yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru ac ni fydd angen Gorchymyn 2014 mwyach.

Mae rheoliad 7 yn dirymu Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015 o 30 Mai 2022.

Mae rheoliad 8 yn dirymu Rhan 4 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015 ("Gorchymyn 2015") ar 30 Mai 2022. Mae Rhan 4 o Orchymyn 2015 yn nodi'r trefniadau asesu ar gyfer blwyddyn olaf y cyfnod sylfaen. Mae hynny'n cyfateb i flwyddyn 2 a bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion sydd yn y flwyddyn honno yn y flwyddyn ysgol 2022 i 2023. Caiff Gorchymyn 2015 ei ddirymu'n llawn ar 1 Medi 2022.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adrodd") a Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Perfformiad Ysgolion") sy'n ganlyniadol ar ddirymu Gorchymyn 2004 a Gorchymyn 2015.

Mae'r Rheoliadau Adrodd yn gwneud darpariaeth o ran yr adroddiad y mae'n ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ei anfon at rieni a disgyblion sy'n oedolion bob blwyddyn ysgol a'r wybodaeth ychwanegol y caiff rhiant ofyn i'r pennaeth amdani. Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Adrodd fel nad yw'n ofynnol i benaethiaid adrodd ar ganlyniadau'r asesiadau statudol sydd wedi eu dirymu gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau Perfformiad Ysgolion yn rheoleiddio trosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad addysgol disgyblion o benaethiaid i gyrff llywodraethu ysgolion, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Mae rheoliad 10(1) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Perfformiad Ysgolion er mwyn dileu'r gofyniad ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir i ddarparu canlyniadau'r asesiadau statudol sydd wedi eu dirymu gan y Rheoliadau hyn i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol ac i Weinidogion Cymru.

Regulation 6 disapplies the National Curriculum (Assessment Arrangements for the Foundation Phase and the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2014 ("the 2014 Order") to coincide with the roll out of the new CfW. The 2014 Order is revoked on 1 September 2024. From 1 September 2024 all pupils who are assessed pursuant to the 2014 Order will be following the CfW and the 2014 Order will no longer be needed.

Regulation 7 revokes the National Curriculum (Moderation of Assessment Arrangements for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2015 from 30 May 2022.

Regulation 8 revokes Part 4 of the National Curriculum (Desirable Outcomes, Educational Programmes and Baseline and End of Phase Assessment Arrangements for the Foundation Phase) (Wales) Order 2015 ("the 2015 Order") on 30 May 2022. Part 4 of the 2015 Order sets out the assessment arrangements for the final year of the foundation phase. That correlates to year 2 and the CfW will be rolled out to pupils in that year in the school year 2022 to 2023. The 2015 Order is fully revoked on 1 September 2022.

Part 3 of these Regulations makes amendments to the Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011 ("the Reporting Regulations") and the School Performance Information (Wales) Regulations 2011 ("the School Performance Regulations") which are consequential on the revocation of the 2004 Order and the 2015 Order.

The Reporting Regulations make provision as to the report the head teacher of a maintained school is required to send to parents and adult pupils each school year and the additional information a parent may request from the head teacher. Regulation 10 of these Regulations amends the Reporting Regulations so that head teachers are not required to report on the results of the statutory assessments that are revoked by these Regulations.

The School Performance Regulations regulate the transfer of information relating to the educational performance of pupils from head teachers to school governing bodies, local authorities and the Welsh Ministers. Regulation 10(1) of these Regulations amends the School Performance Regulations so as to remove the requirement on a governing body of a maintained school to provide the results of the statutory assessments that are revoked by these Regulations to the local authority that maintains the school and to the Welsh Ministers.

Mae rheoliad 10(2) yn diwygio'r Rheoliadau Perfformiad Ysgolion ymhellach drwy roi Atodlen 2 newydd yn lle'r un bresennol. Effaith hynny yw bod canlyniadau'r profion darllen a rhifedd wedi eu heithrio o'r wybodaeth am asesiadau statudol y mae rhaid i gorff llywodraethu ysgol ei hanfon i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol honno.

Mae rheoliad 11 yn diwygio rheoliad 5 o Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 er mwyn dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol ysgolion ddosbarthu copïau o'r prosbectws cyfansawdd yn ddi-dâl i rieni a disgyblion sydd yn y flwyddyn olaf yn yr ysgol ac a allai drosglwyddo i ysgolion eraill o'r fath.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Regulation 10(2) further amends the School Performance Regulations by substituting a new Schedule 2. The effect of that is that the results of the reading and numeracy tests are excluded from the statutory assessments information that must be sent by a governing body of a school to the local authority that maintains that school.

Regulation 11 amends regulation 5 of the School Information (Wales) Regulations 2011 so as to remove the requirement for school local authorities to distribute copies of the composite prospectus without charge to parents and pupils who are in the final year at the school and might transfer to other such schools.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government at Crown Building, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 517 (Cy. 124)

## ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mai 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *9 Mai 2022* |
| *Yn dod i rym* | *30 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 29(3) a (5)(**1**), 408(1)(**2**), 537(1), (4) a (7)(**3**), 537A(1), (2) a (3)(**4**) a 569(4)(**5**) o Ddeddf Addysg

(**1**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 29(3) gan baragraff 67 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Diwygiwyd pennawd adran 29 ac is-adrannau (1), (3) a (5) gan O.S. 2010/1158. Mae diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Diwygiwyd adran 408(1) gan baragraff 30(a) o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), paragraff 106(a) o Atodlen 30, ac Atodlen 31, i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraffau 1 a 57(1) a (2) o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), paragraff 46(1) a (2) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), paragraffau 9, 11(1) a (2) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), paragraffau 5 a 7 o Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 2011 (p. 21), paragraff 1(1) a (2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5) a chan O.S. 2010/1158. Mae diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Diwygiwyd adran 537(1) gan baragraff 152(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan baragraff 9(1) a (15) o Atodlen 13 i Ddeddf Addysg 2011 a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd is-adran (4) gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997. Diwygiwyd is-adran (7) gan baragraff 152(b) o Atodlen 30, ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan baragraffau 1 a 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, gan baragraff 6(1) a (5) o Ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 2002 a chan O.S. 2010/1158.

(**4**) Mewnosodwyd adran 537A o Ddeddf Addysg 1996 gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997, fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2010/1158 a chan O.S. 2012/976.

(**5**) Diwygiwyd adran 569(4) gan adran 8(1) a (5) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5) a chan adran 73 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a pharagraffau 1 a 22(b) o Atodlen 2 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 517 (W. 124)

## EDUCATION, WALES

## The Education (Revocation of Assessment Arrangements in the National Curriculum and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 May 2022* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *9 May 2022* |
| *Coming into force* | *30 May 2022* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers in sections 29(3) and (5)(**1**), 408(1)(**2**), 537(1), (4) and (7)(**3**), 537A(1), (2) and (3)(**4**) and 569(4)(**5**) of, and

(**1**) 1996 c. 56. Section 29(3) was amended by paragraph 67 of Schedule 30 and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31). The heading of section 29 and subsections (1), (3) and (5) were amended by S.I. 2010/1158. There are other amendments to this section which are not relevant to these Regulations.

(**2**) Section 408(1) was amended by paragraph 30(a) of Schedule 7 to the Education Act 1997 (c. 44), paragraph 106(a) of Schedule 30, and Schedule 31, to the School Standards and Framework Act 1998, paragraphs 1 and 57(1) and (2) of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), paragraph 46(1) and (2) of Schedule 21 to the Education Act 2002 (c. 32), paragraphs 9, 11(1) and (2) of Schedule 12 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c. 22), paragraphs 5 and 7 of Schedule 8 to the Education Act 2011 (c. 21), paragraph 1(1) and (2)(a) of Schedule 4 to the Qualifications Wales Act 2015 (anaw 5) and by S.I. 2010/1158. There are other amendments to this section which are not relevant to these Regulations.

(**3**) Section 537(1) was amended by paragraph 152(a) of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998, by paragraph 9(1) and (15) of Schedule 13 to the Education Act 2011 and by S.I. 2010/1158. Subsection (4) was amended by paragraph 37 of Schedule 7 to the Education Act 1997. Subsection (7) was amended by paragraph 152(b) of Schedule 30, and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998, by paragraphs 1 and 60 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000, by paragraph 6(1) and (5) of Part 2 of Schedule 7 to the Education Act 2002 and by S.I. 2010/1158.

(**4**) Section 537A of the Education Act 1996 was inserted by section 20 of the Education Act 1997, substituted by paragraph 153 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 and further amended by S.I. 2010/1158 and by S.I. 2012/976.

(**5**) Section 569(4) was amended by section 8(1) and (5) of the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5) and by section 73 of, and paragraphs 1 and 22(b) of Schedule 2 to, the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021. There are other amendments which are not relevant to these Regulations. For the definitions of "prescribed" and "regulations" see section 579(1) of the Education Act 1996.

1996(**1**), a pharagraff 3 o Atodlen 1(**2**) iddi, ac yn adran 108(2)(b)(iii) a (3)(c)(**3**), ac yn adran 210(7)(**4**) o Ddeddf Addysg 2002(**5**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996 wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn ddymunol ymgynghori â hwy.

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mai 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn 1" ("*year 1*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 6 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 2" ("*year 2*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 7 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 3" ("*year 3*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 8 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 9 oed ynddi;

(**1**) 1996 p. 56. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Diwygiwyd paragraff 3 o Atodlen 1 gan O.S. 2010/1158.

(**3**) Rhoddwyd y pwerau yn adran 108 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diwygiwyd adran 108(2) a (3) er mwyn hepgor cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoi cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn eu lle gan baragraffau 11 i 13 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1). Diddymwyd adran 108 gan baragraffau 44 a 45 o Atodlen 2 i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae'r diddymiad hwnnw yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth arbed a'r ddarpariaeth drosiannol yn O.S. 2022/111 (Cy. 39). Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 212(1) o Ddeddf Addysg 2002.

(**4**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 210 gan baragraffau 44 a 46 o Atodlen 2 i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

(**5**) 2002 p. 32.

paragraph 3 of Schedule 1(**1**) to, the Education Act 1996(**2**), in section 108(2)(b)(iii) and (3)(c)(**3**), and in section 210(7)(**4**) of the Education Act 2002(**5**), make the following Regulations.

The Welsh Ministers in accordance with section 408(5) of the Education Act 1996 have consulted such persons as appeared to the Welsh Ministers to be desirable.

# PART 1

## General

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Education (Revocation of Assessment Arrangements in the National Curriculum and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 30 May 2022.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996;

"the 2021 Act" ("*Deddf 2021*") means the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021(**6**);

"class" ("*dosbarth*") has the meaning given to it in section 82(1) of the 2021 Act;

(**1**) Paragraph 3 of Schedule 1 was amended by S.I. 2010/1158.

(**2**) 1996 c. 56. The functions of the Secretary of State in the Education Act 1996 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now exercisable by the Welsh Ministers under section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) The powers in section 108 were conferred on the National Assembly for Wales. Section 108(2) and (3) was amended so as to omit references to the National Assembly for Wales and replace it with references to the Welsh Ministers by paragraphs 11 to 13 of the Schedule to the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1). Section 108 was repealed by paragraphs 44 and 45 of Schedule 2 to, the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021. That repeal is subject to the saving and transitional provision in S.I. 2022/111 (W. 39). For the definitions of "prescribed" and "regulations" see section 212(1) of the Education Act 2002.

(**4**) Section 210 was amended by paragraphs 44 and 46 of Schedule 2 to, the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.

(**5**) 2002 c. 32.

(**6**) 2021 asc 4.

ystyr "blwyddyn 5" ("*year 5*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 10 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 11 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 7" ("*year 7*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 12 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 8" ("*year 8*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 13 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 9" ("*year 9*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 14 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn derbyn" ("*reception year*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 5 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn meithrin" ("*nursery year*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 4 oed ynddi;

mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "school year" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**);

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf 1996(**2**);

mae i "dosbarth" ("*class*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 82(1) o Ddeddf 2021;

mae i "ysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "special school" yn adran 337(2) o Ddeddf 1996(**3**).

(**1**) 2021 dsc 4.

(**2**) Diwygiwyd is-adran (1) gan baragraff 9 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 a diwygiwyd is-adran (1) ac (1A) ymhellach gan baragraff 34 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**3**) Mewnosodwyd gan baragraff 4(1) a (10)(c) o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2).

"nursery year" ("*blwyddyn meithrin*") means the school year in which the majority of the pupils in the class attain the age of 4;

"pupil" ("*disgybl*") has the meaning given to it in section 3 of the 1996 Act(**1**);

"reception year" ("*blwyddyn derbyn*") means the school year in which the majority of the pupils in the class attain the age of 5;

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") has the meaning given to it in section 579(1) of the 1996 Act;

"special school" ("*ysgol arbennig*") has the meaning given to it in section 337(2) of the 1996 Act(**2**);

"year 1" ("*blwyddyn 1*") means the school year in which the majority of the pupils in the class attain the age of 6;

"year 2" ("*blwyddyn 2*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 7;

"year 3" ("*blwyddyn 3*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 8;

"year 4" ("*blwyddyn 4*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 9;

"year 5" ("*blwyddyn 5*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 10;

"year 6" ("*blwyddyn 6*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 11;

"year 7" ("*blwyddyn 7*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 12;

"year 8" ("*blwyddyn 8*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 13;

"year 9" ("*blwyddyn 9*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 14.

(**1**) Subsection (1) was amended by paragraph 9 of Schedule 7 to the Education Act 1997 and subsection (1) and (1A) were further amended by paragraph 34 of Schedule 21 to the Education Act 2002 (c. 32).

(**2**) Inserted by paragraph 4(1) and (10)(c) of Schedule 1 to the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (anaw 2).

# RHAN 2

## Dirymu, Datgymhwyso a Darpariaeth Drosiannol

### Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004

**3.** Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004(**1**) wedi ei ddirymu.

### Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005

**4.**—(1) Nid yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(**2**) ("Gorchymyn 2005") yn gymwys i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig o'r flwyddyn ysgol 2021 i 2022.

(2) Caiff y Gorchmynion a ganlyn eu dirymu ar 1 Medi 2024—

(a) Gorchymyn 2005, a

(b) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau i Drefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2011(**3**).

### Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013

**5.**—(1) Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(**4**) ("Gorchymyn 2013") i fod yn gymwys yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol ym mharagraffau (2) i (5).

(2) Mae'r darpariaethau trosiannol yn gymwys i ddisgyblion—

(a) ym mlwyddyn 2, blwyddyn 3, blwyddyn 4, blwyddyn 5 a blwyddyn 6 o'r flwyddyn ysgol 2022 i 2023,

(b) ym mlwyddyn 7 pan fo'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol o dan Ran 2 o Ddeddf 2021, o'r flwyddyn ysgol 2022 i 2023,

(**1**) O.S. 2004/2915 (Cy. 254), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3239 (Cy. 244) ac O.S. 2011/1937 (Cy. 206).
(**2**) O.S. 2005/1394 (Cy. 108), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3239 (Cy. 244), O.S. 2008/1899 (Cy. 181) ac O.S. 2011/1937 (Cy. 206).
(**3**) O.S. 2011/1937 (Cy. 206).
(**4**) O.S. 2013/433 (Cy. 51), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/811 (Cy. 163).

# PART 2

## Revocation, Disapplication and Transitional Provision

### The National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004

**3.** The National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004(**1**) is revoked.

### The National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005

**4.**—(1) The National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005(**2**) ("the 2005 Order") does not apply to pupils in special schools from the school year 2021 to 2022.

(2) The following Orders are revoked on 1 September 2024—

(a) the 2005 Order, and

(b) the National Curriculum (Amendments to the Key Stage 2 and Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2011(**3**).

### The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013

**5.**—(1) The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013(**4**) ("the 2013 Order") is to apply subject to the transitional provisions in paragraphs (2) to (5).

(2) The transitional provisions apply to pupils—

(a) in year 2, year 3, year 4, year 5 and year 6 from the school year 2022 to 2023,

(b) in year 7 where the head teacher and governing body have adopted a relevant curriculum under Part 2 of the 2021 Act, from the school year 2022 to 2023,

(**1**) S.I. 2004/2915 (W. 254), amended by S.I. 2005/3239 (W. 244) and S.I. 2011/1937 (W. 206).
(**2**) S.I. 2005/1394 (W. 108), amended by S.I. 2005/3239 (W.244), S.I. 2008/1899 (W. 181) and S.I. 2011/1937 (W. 206).
(**3**) S.I. 2011/1937 (W. 206).
(**4**) S.I. 2013/433 (W. 51), amended by S.I. 2018/811 (W. 163).

(c) ym mlwyddyn 7 nad ydynt ar 1 Medi 2022, o fewn is-baragraff (b), o'r flwyddyn ysgol 2023 i 2024,

(d) ym mlwyddyn 8 o'r flwyddyn ysgol 2023 i 2024, ac

(e) ym mlwyddyn 9 o'r flwyddyn ysgol 2024 i 2025.

(3) Yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2013—

(a) mae'r diffiniadau o "y PDCCC", "y PDCCS" ac "y PRhC" i'w darllen fel pe bai'r geiriau "Cwricwlwm Cenedlaethol" wedi eu hepgor,

(b) mae'r diffiniadau a ganlyn i'w trin fel pe baent wedi eu hepgor—

(i) "y ddogfen Gymraeg",

(ii) "rhaglen astudio Cymraeg", a

(iii) "rhaglen astudio Cymraeg ail iaith",

(c) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 2" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 2" ("*year 2*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 7 oed ynddi;",

(d) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 3" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 3" ("*year 3*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 8 oed ynddi;",

(e) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 4" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 9 oed ynddi;",

(f) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 5" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 5" ("*year 5*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 10 oed ynddi;",

(g) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 6" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 11 oed ynddi;",

(h) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 7" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 7" ("*year 7*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 12 oed ynddi;",

(c) in year 7 who on 1 September 2022, are not within sub-paragraph (b), from the school year 2023 to 2024,

(d) in year 8 from the school year 2023 to 2024, and

(e) in year 9 from the school year 2024 to 2025.

(3) In article 2(1) of the 2013 Order—

(a) the definitions of "the NNT", the "the NRTE" and the "the NRTW" are to be read as if the words "National Curriculum" were omitted,

(b) the following definitions are to be treated as if they were omitted—

(i) "the Welsh document",

(ii) "Welsh programme of study", and

(iii) "Welsh second language programme of study",

(c) for the definition of "year 2" substitute—

""year 2" ("*blwyddyn 2*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 7;",

(d) for the definition of "year 3" substitute—

""year 3" ("*blwyddyn 3*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 8;",

(e) for the definition of "year 4" substitute—

""year 4" ("*blwyddyn 4*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 9;",

(f) for the definition of "year 5" substitute—

""year 5" ("*blwyddyn 5*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 10;",

(g) for the definition of "year 6" substitute—

""year 6" ("*blwyddyn 6*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 11;",

(h) for the definition of "year 7" substitute—

""year 7" ("*blwyddyn 7*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 12;",

(i) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 8" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 8" ("*year 8*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 13 oed ynddi", a

(j) yn lle'r diffiniad o "blwyddyn 9" rhodder—

"ystyr "blwyddyn 9" ("*year 9*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 14 oed ynddi;".

(4) Yn lle erthygl 3(1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r erthygl hon yn gymwys i—

(a) disgybl ym mlynyddoedd 4 i 9; a

(b) disgybl ym mlynyddoedd 2 a 3 pan fo mwyafrif gwersi'r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg."

(5) Yn lle erthygl 4(1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r erthygl hon yn gymwys i ddisgybl ym mlynyddoedd 2 i 9 pan fo mwyafrif gwersi'r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg."

(6) Caiff y Gorchmynion a ganlyn eu dirymu ar 1 Medi 2024—

(a) Gorchymyn 2013; a

(b) Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018(**1**).

**Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014**

**6.**—(1) Nid yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014(**2**) ("Gorchymyn 2014") yn gymwys o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff (2).

(2) Nid yw Gorchymyn 2014 yn gymwys—

(a) o'r flwyddyn ysgol 2022 i 2023 i blant a disgyblion—

(i) yn y flwyddyn meithrin,

(ii) yn y flwyddyn derbyn, a

(**1**) O.S. 2018/811 (Cy. 163).
(**2**) O.S. 2014/1999 (Cy. 200).

(i) for the definition of "year 8" substitute—

""year 8" ("*blwyddyn 8*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 13"; and

(j) for the definition of year 9 substitute—

""year 9" ("*blwyddyn 9*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 14.".

(4) For article 3(1) substitute—

"(1) Subject to paragraph (4), this article applies to—

(a) a pupil in years 4 to 9; and

(b) a pupil in years 2 and 3 where, in the opinion of the head teacher, the majority of that pupil's lessons are taught through the medium of English. "

(5) For article 4(1) substitute—

"(1) Subject to paragraph (4), this article applies to a pupil in years 2 to 9 where, in the opinion of the head teacher, the majority of that pupil's lessons are taught through the medium of Welsh."

(6) The following Orders are revoked on 1 September 2024—

(a) the 2013 Order; and

(b) the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) (Amendment) Order 2018(**1**).

**The National Curriculum (Assessment Arrangements for the Foundation Phase and the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2014**

**6.**—(1) The National Curriculum (Assessment Arrangements for the Foundation Phase and the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2014(**2**) ("the 2014 Order") does not apply in the circumstances set out in paragraph (2).

(2) The 2014 Order does not apply—

(a) from the school year 2022 to 2023 to children and pupils in—

(i) the nursery year,

(ii) the reception year, and

(**1**) S.I. 2018/811 (W. 163).
(**2**) S.I. 2014/1999 (W. 200).

(iii) ym mlwyddyn 1, blwyddyn 2, blwyddyn 3, blwyddyn 4, blwyddyn 5 a blwyddyn 6,

(b) o’r flwyddyn ysgol 2022 i 2023 i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 pan fo’r pennaeth a’r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol o dan Ran 2 o Ddeddf 2021, ac

(c) o’r flwyddyn ysgol 2023 i 2024 i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 a blwyddyn 8.

(3) Caiff Gorchymyn 2014 ei ddirymu ar 1 Medi 2024.

**Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a’r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015**

**7.** Caiff Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a’r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015(**1**) ei ddirymu ar 30 Mai 2022.

**Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015**

**8.**—(1) Yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015(**2**) (“Gorchymyn 2015”) hepgorer Rhannau 3 a 4.

(2) Caiff y Gorchmynion a ganlyn eu dirymu ar 1 Medi 2022—

(a) Gorchymyn 2015, a

(b) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2016(**3**).

(**1**) O.S. 2015/1309 (Cy. 113).
(**2**) O.S. 2015/1596 (Cy. 195), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/836 (Cy. 210).
(**3**) O.S. 2016/836 (Cy. 210).

(iii) year 1, year 2, year 3, year 4, year 5 and year 6,

(b) from the school year 2022 to 2023 to pupils in year 7 where the head teacher and governing body have adopted a relevant curriculum under Part 2 of the 2021 Act, and

(c) from the school year 2023 to 2024 to pupils in year 7 and year 8.

(3) The 2014 Order is revoked on 1 September 2024.

**The National Curriculum (Moderation of Assessment Arrangements for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2015**

**7.** The National Curriculum (Moderation of Assessment Arrangements for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2015(**1**) is revoked on 30 May 2022.

**The National Curriculum (Desirable Outcomes, Educational Programmes and Baseline and End of Phase Assessment Arrangements for the Foundation Phase) (Wales) Order 2015**

**8.**—(1) In the National Curriculum (Desirable Outcomes, Educational Programmes and Baseline and End of Phase Assessment Arrangements for the Foundation Phase) (Wales) Order 2015(**2**) (“the 2015 Order”) omit Parts 3 and 4.

(2) The following Orders are revoked on 1 September 2022—

(a) the 2015 Order, and

(b) the National Curriculum (Desirable Outcomes, Educational Programmes and Baseline and End of Phase Assessment Arrangements for the Foundation Phase) (Wales) (Amendment) Order 2016(**3**).

(**1**) S.I. 2015/1309 (W. 113).
(**2**) S.I. 2015/1596 (W. 195), amended by S.I. 2016/836 (W. 210).
(**3**) S.I. 2016/836 (W. 210).

# RHAN 3

## Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol

**Diwygio Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011**

**9.**—(1) Mae Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel y nodir ym mharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 2 yn lle'r diffiniad o "asesiadau statudol" rhodder—

"ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw'r trefniadau asesu a bennir—

(a) yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(**2**);

(b) yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(**3**);

(c) yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014(**4**); a

(d) yn Rhan 3 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015(**5**) ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn unig;".

(3) Yn rheoliad 4A hepgorer paragraffau (a) a (b).

(4) Yn yr Atodlen hepgorer paragraff 2 o Ran 1.

(**1**) O.S. 2011/1943 (Cy. 210), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2014/1998 (Cy. 199), O.S. 2016/236 (Cy. 88), O.S. 2016/837 (Cy. 211), O.S. 2018/766 (Cy. 153), O.S. 2020/729 (Cy. 164) ac O.S. 2021/612 (Cy. 163).

(**2**) O.S. 2005/1394 (Cy. 108), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3239 (Cy. 244), O.S. 2008/1899 (Cy. 181) ac O.S. 2011/1937 (Cy. 206).

(**3**) O.S. 2013/433 (Cy. 51), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/811 (Cy. 163).

(**4**) O.S. 2014/1999 (Cy. 200).

(**5**) O.S. 2015/1596 (Cy. 195), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/836 (Cy. 210).

# PART 3

## Consequential and Miscellaneous Amendments

**The Amendment of the Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011**

**9.**—(1) The Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011(**1**) are amended as set out in paragraphs (2) to (4).

(2) In regulation 2 for the definition of "statutory assessments" substitute—

""statutory assessments" ("*asesiadau statudol*") means the assessment arrangements specified in—

(a) the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005(**2**);

(b) the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013(**3**);

(c) the National Curriculum (Assessment Arrangements for the Foundation Phase and the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2014(**4**); and

(d) Part 3 of the National Curriculum (Desirable Outcomes, Educational Programmes and Baseline and End of Phase Assessment Arrangements for the Foundation Phase) (Wales) Order 2015(**5**) for the 2021 to 2022 school year only;".

(3) In regulation 4A omit paragraphs (a) and (b).

(4) In the Schedule omit paragraph 2 of Part 1.

(**1**) S.I. 2011/1943 (W. 210), amended by S.I. 2013/437 (W. 53), S.I. 2014/1998 (W. 199), S.I. 2016/236 (W. 88), S.I. 2016/837 (W. 211), S.I. 2018/766 (W. 153), S.I. 2020/729 (W. 164) and S.I. 2021/612 (W. 163).

(**2**) S.I. 2005/1394 (W. 108), amended by S.I. 2005/3239 (W. 244), S.I. 2008/1899 (W. 181) and S.I. 2011/1937 (W. 206).

(**3**) S.I. 2013/433 (W. 51), amended by S.I. 2018/811 (W. 163).

(**4**) S.I. 2014/1999 (W. 200).

(**5**) S.I. 2015/1596 (W. 195), amended by S.I. 2016/836 (W. 210).

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011**

**10.**—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel y nodir ym mharagraffau (2) i (3).

(2) Yn rheoliad 2(1) yn lle'r diffiniad o "asesiadau statudol" rhodder—

"ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw'r trefniadau asesu a bennir—

(a) yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(**2**);

(b) yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(**3**);

(c) yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014(**4**); a

(d) yn Rhan 3 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015(**5**) ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn unig;".

**The Amendment of the School Performance Information (Wales) Regulations 2011**

**10.**—(1) The School Performance Information (Wales) Regulations 2011(**1**) are amended as set out in paragraphs (2) to (3).

(2) In regulation 2(1) for the definition of "statutory assessments" substitute—

""statutory assessments" ("*asesiadau statudol*") means the assessment arrangements specified in—

(a) the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005(**2**);

(b) the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013(**3**);

(c) the National Curriculum (Assessment Arrangements for the Foundation Phase and the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2014(**4**); and

(d) in Part 3 of the National Curriculum (Desirable Outcomes, Educational Programmes and Baseline and End of Phase Assessment Arrangements for the Foundation Phase) (Wales) Order 2015(**5**) for the 2021 to 2022 school year only;".

(**1**) O.S. 2011/1963 (Cy. 217), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2016/236 (Cy. 88), O.S. 2016/837 (Cy. 211), O.S. 2020/729 (Cy. 164) ac O.S. 2021/612 (Cy. 163).
(**2**) O.S. 2005/1394 (Cy. 108), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3239 (Cy. 244), O.S. 2008/1899 (Cy. 181) ac O.S. 2011/1937 (Cy. 206).
(**3**) O.S. 2013/433 (Cy. 51), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/811 (Cy. 163).
(**4**) O.S. 2014/1999 (Cy. 200).
(**5**) O.S. 2015/1596 (Cy. 195), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/836 (Cy. 210).

(**1**) S.I. 2011/1963 (W. 217), amended by S.I. 2013/437 (W. 53), S.I. 2016/236 (W. 88), S.I. 2016/837 (W. 211), S.I. 2020/729 (W. 164) and S.I. 2021/612 (W. 163).
(**2**) S.I. 2005/1394 (W. 108), amended by S.I. 2005/3239 (W. 244), S.I. 2008/1899 (W. 181) and S.I. 2011/1937 (W. 206).
(**3**) S.I. 2013/433 (W. 51), amended by S.I. 2018/811 (W. 163).
(**4**) S.I. 2014/1999 (W. 200).
(**5**) S.I. 2015/1596 (W. 195), amended by S.I. 2016/836 (W. 210).

(3) Yn lle Atodlen 2 rhodder—

## "ATODLEN 2 Rheoliadau 4, 5 a 6

## Darparu Gwybodaeth i Gyrff Llywodraethu, Awdurdodau Lleol a Gweinidogion Cymru: Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol

**1.** Yn ddarostyngedig i baragraff 3, mewn cysylltiad â phob disgybl cofrestredig yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri, canlyniadau asesiadau statudol y disgybl.

**2.** Pan na fo rhai neu'r cyfan o'r canlyniadau a nodir ym mharagraff 1 ar gael—

(a) a gafodd y disgybl ei esemptio rhag yr asesiadau statudol o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; neu

(b) a yw canlyniadau asesiadau statudol y disgybl heb fod ar gael am resymau ac eithrio esemptio'r disgybl o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002.

**3.** At ddibenion rheoliadau 5 a 6, nid yw paragraff 1 yn cynnwys canlyniadau Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(**1**)."

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011**

**11.** Yn rheoliad 5 o Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(**2**) hepgorer paragraff (2)(c).

(3) For Schedule 2 substitute—

## "SCHEDULE 2 Regulations 4, 5 and 6

## Provision of Information to Governing Bodies, Local Authorities and Welsh Ministers: Foundation Phase and Key Stage Results

**1.** Subject to paragraph 3, in respect of each registered pupil in the foundation phase, second key stage and third key stage, the results of the pupil's statutory assessments.

**2.** Where some or all of the results set out in paragraph 1 are not available—

(a) whether the pupil was exempted from the statutory assessments under section 113 or 114 of the 2002 Act; or

(b) whether the results of the pupil's statutory assessments are not available for reasons other than the pupil's exemption under section 113 or 114 of the 2002 Act.

**3.** For the purposes of regulations 5 and 6, paragraph 1 does not include the results of the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013(**1**)."

**The Amendment to the School Information (Wales) Regulations 2011**

**11.** In regulation 5 of the School Information (Wales) Regulations 2011(**2**) omit paragraph (2)(c).

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
8 Mai 2022

Minister for Education and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
8 May 2022

(**1**) O.S. 2013/433 (Cy. 51), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/811 (Cy. 163).
(**2**) O.S. 2011/1944 (Cy. 211), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/766 (Cy. 153), O.S. 2020/729 (Cy. 164), O.S. 2021/612 (Cy. 163), O.S. 2022/178 (Cy. 58).

(**1**) S.I. 2013/433 (W. 51), amended by S.I. 2018/811 (W. 163).
(**2**) S.I. 2011/1944 (W. 211), amended by S.I. 2013/437 (W. 53), S.I. 2016/211 (W. 84), S.I. 2018/766 (W. 153), S.I. 2020/729 (W. 164), S.I. 2021/612 (W. 163), S.I. 2022/178 (W. 58).

©ⓗHawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/517

ISBN 978-0-348-39304-0